VAWDASV

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Dileu Cyfrifoldeb Rhiant, ei Atal neu Gyfyngu Arno




## 1 Cyd-destun

Mae llofruddiaeth drasig Jade Ward gan ei phartner, a oedd wedi ymddieithrio wrthi, yn 2021, wedi arwain at drafodaeth yn ddiweddar am y gyfraith ynghylch cyfrifoldeb rhiant. Mae rhieni Jade wedi ymgyrchu dros gyflwyno Deddf Jade a fyddai'n golygu dileu Cyfrifoldeb Rhiant yn awtomatig mewn achosion ble mae un rhiant wedi llofruddio rhiant arall.

Eisoes, mae yna ddarpariaethau mewn deddfwriaeth gyfredol lle mae Llys, mewn amgylchiadau penodol, yn gallu dileu Cyfrifoldeb Rhiant, neu, fel opsiwn arall, yn gallu cyfyngu'n sylweddol ar allu unigolion i arfer eu hawliau fel rhieni.

Lluniwyd y nodyn briffio 7-munud hwn fel canllaw i gynorthwyo unrhyw ymarferydd sy'n cefnogi teulu mewn amgylchiadau o'r fath.

## 2 Ystyr Cyfrifoldeb Rhiant

Mae Deddf Plant 1989 yn diffinio Cyfrifoldeb Rhiant fel "pob hawl, dyletswydd, pŵer, cyfrifoldeb ac awdurdod sydd gan riant plentyn yn gyfreithiol mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo" (adran 3(1)). Mae'r rheiny sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn gallu gwneud penderfyniadau dros y plentyn, er enghraifft mewn perthynas â'i enw, addysg a thriniaeth feddygol. Pan fydd gan fwy nag un Gyfrifoldeb Rhiant, ni allant wneud penderfyniadau ar eu pen eu hun. Mae enghreifftiau o sut y ceir Cyfrifoldeb Rhiant yn cynnwys:

- Mae gan fam fiolegol plentyn Gyfrifoldeb Rhiant awtomatig, ac mae hyn yn wir am dad biolegol y plentyn hefyd os yw'n briod â/bartner sifil i'r fam adeg geni'r plentyn.
- Mae tad yn gallu cael Cyfrifoldeb Rhiant os yw'n priodi'r fam, wedi'i gofrestru ar dystysgrif geni'r plentyn, yn ffurfio cytundeb cyfrifoldeb rhiant gyda'r fam neu'n ymgeisio i'r Llys am Orchymyn sy'n rhoi Cyfrifoldeb Rhiant.
- Pan fydd gan blentyn ddau riant benywaidd, yn fras caiff y rhiant sydd heb eni'r plentyn ei drin yn yr un ffordd â thad.
- Mae Gorchymynion Mabwysiadu a Gorchymynion Gwarcheidiaeth Arbennig hefyd yn enwi'r rheiny sydd â Chyfrifoldeb Rhiant.

## 3 Dileu Cyfrifoldeb Rhiant

Mae mam, neu riant sydd â Chyfrifoldeb Rhiant am ei fod yn briod â'r fam, yn gallu colli Cyfrifoldeb Rhiant trwy Orchymyn Mabwysiadu neu Orchymyn Rhiant (mewn trefniadau benthyg croth) yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn, **ni ellir** dileu Cyfrifoldeb Rhiant trwy Orchymyn Llys.

Os yw rhiant wedi cael Cyfrifoldeb Rhiant trwy ffordd arall, fel yr amlinellir uchod, gellir dileu'r Cyfrifoldeb Rhiant trwy Orchymyn Llys.

Gall unrhyw un sydd â Chyfrifoldeb Rhiant, a'r plentyn ei hun os oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol, ymgeisio i'r Llys i derfynu Cyfrifoldeb Rhiant unigolyn.

Amlinellwyd yr egwyddorion ar gyfer dileu Cyfrifoldeb Rhiant mewn achos yn y Llys Teulu yn 2012 ac amlygwyd y dylai fod yn anghyffredin i dad beidio â chael Cyfrifoldeb Rhiant **ac mai lles y plentyn sydd bennaf mewn unrhyw benderfyniad.**

## 4 Pryd y Gallai Llys Ystyried Dileu Cyfrifoldeb Rhiant?

Bydd y Llysoedd yn ystyried cais i ddileu Cyfrifoldeb Rhiant mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig. Mae enghreifftiau lle gallai'r Llys ystyried dileu Cyfrifoldeb Rhiant yn cynnwys:

- Rhiant sydd wedi gwneud niwed corfforol neu rywiol i blentyn
- Pan fydd rhiant wedi cam-drin y rhiant arall yn gorfforol neu'n rhywiol
- Os yw rhiant yn gwrthod rhoi caniatâd dros driniaeth feddygol

**Ni** fydd Llys yn ystyried dileu Cyfrifoldeb Rhiant am resymau fel:

- Diffyg cyswllt neu gyfraniad at fywyd y plentyn
- Methu â thalu taliadau cynhaliaeth plant.

## 5 Enghreifftiau o Achosion Llwyddiannus

Mae yna rai enghreifftiau mewn cyfraith achos lle mae cyfrifoldeb rhiant wedi cael ei ddileu:

***A v D (Cyfrifoldeb Rhiant)*** **[2013] EWHC 2963 (Teulu) –** lle'r aeth y tad i'r carchar am drais domestig eithafol.

***Re P (Dileu cyfrifoldeb rhiant) [*****1995] 3 FCR 753]** – lle cafwyd y tad yn euog o achosi niwed corfforol difrifol i'r plentyn.

***CW v SG*** **[2013] All ER (D) 117 (Ebrill) –** lle plediodd y tad yn euog i ymosod yn rhywiol ar frawd neu chwaer y plentyn.

***D v E (Dileu Cyfrifoldeb Rhiant)*** **[2021] EWFC 37** - lle'r oedd gan y tad hanes sylweddol o droseddu gan gynnwys troseddau rhywiol yn erbyn plant

## 6 Atal Cyfrifoldeb Rhiant neu Gyfyngu Arno

Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn bosibl atal Cyfrifoldeb Rhiant; mae cyflwyno cais am hyn i Lys Teulu neu Uchel Lys o fewn cylch gwaith Gweithiwr Cymdeithasol, gydag arweiniad gan dîmau cyfreithiol.

Mae'r Llys hefyd yn gallu cyfyngu ar Gyfrifoldeb Rhiant unigolyn trwy lunio gorchymyn sy'n cyfyngu ar ei allu i arfer ei hawliau mewn perthynas â phlentyn. Enghraifft o hyn fyddai Gorchymyn Camau Gwaharddedig o dan Adran 8 Deddf Plant 1989. Defnyddiwyd hyn mewn achos yn 2017 i atal tad priod rhag cymryd unrhyw gamau i arfer unrhyw agwedd ar ei Gyfrifoldeb Rhiant mewn perthynas â'i blant, gan nad oedd modd dileu ei Gyfrifoldeb Rhiant.

Gall y Llys hefyd wneud Gorchymyn Trefniadau Plant er mwyn amddiffyn y plentyn ac er mwyn cyfyngu ar rôl y rhiant ym mywyd y plentyn, neu wneud Gorchymyn Mater Penodol os oes angen rhoi sylw i un mater yn benodol ac ni ellir cytuno arno.

## 7 Sut Allaf Gefnogi Teulu?

Os ydych yn gweithio gyda theulu yn yr amgylchiadau anodd hyn, efallai y gallech eu cefnogi trwy dynnu eu sylw at yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer atal Cyfrifoldeb Rhiant, cyfyngu arno neu ei ddileu.

Dylech godi ymwybyddiaeth am yr opsiynau gan ddilyn arweiniad eich Rheolwr a/neu dîm cyfreithiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd, trwy'r dolenni canlynol:
Children: parental responsibility - House of Commons Library (parliament.uk)
E-petition debate: The removal of parental responsibility - House of Commons Library (parliament.uk)